



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusen Iechyd
Caerdydd a'r Fro

Adroddiad Blynyddol 2019-20



"Gallwn feithrin dyfodol gwell drwy
blannu hadau da heddiw"

Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Iechyd a Chadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	1
Cipolwg ar ein Blwyddyn	2
Sut rydyn ni wedi gwario eich arian	3
Uchafbwyntiau codi arian	4
• Ebrill - Mehefin 2019	5
• Gorffennaf - Medi 2019	6
• Hydref - Rhagfyr 2019	7
• Ionawr - Mawrth 2020	8
• Gofalu yn ystod Covid-19 #RhannurCariad	8
Cyflawniadau Ariannol a Strwythur Perfformiad	9-11
Llywodraethu a Rheoli Perfformiad	12-16
Cyfrifon Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro - y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020	17-36
Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Ariannol	37
Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr	38
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol	39-40

Gallwch gael rhagor o wybodaeth amdanom ni, y gwaith a wnawn, gyda phwy rydym yn gweithio a sut y gallwch gymryd rhan drwy ymweld â'n gwefan: www.healthcharity.wales



Yn gyntaf, hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr yn y GIG a weithiodd yn ddiflino yn ystod y pandemig Covid-19 i ddarparu gofal tosturiol i'n cleifion.

Daeth ein blwyddyn o godi arian i ben ym mis Mawrth 2020 gyda'r cyfnod clo, â'r nod o helpu i achub bywydau a diogelu ein GIG. Ry'n ni'n siŵr ein bod ni'n siarad ar ran pawb wrth ddweud ein bod ni mor ddiolchgar am bopeth ry'ch chi wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud.

Bu 2019-20 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, sy'n cefnogi amrywiaeth gynyddol o brosiectau cleifion a staff ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Er bod yr Elusen Iechyd bob amser yn edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o godi arian, ac yn dibynnu ar gefnogaeth ein codwyr arian, rhoddwyr a gwirfoddolwyr hael, gwnaethom barhau i ddangos perfformiad ariannol cryf, gan gynhyrchu incwm o £1.36m.

Mae gwelededd yr Elusen Iechyd wedi gwella, gyda brandio newydd ar draws ein safleoedd ysbytai, ac mae pod codi arian wedi'i gyflwyno yn Ysbyty Athrofaol Cymru; mae mwy o ymwybyddiaeth o'r Elusen Iechyd ar draws y sefydliad.

Eleni, mae tîm yr Elusen Iechyd wedi manteisio i'r eithaf ar lwyddiant digwyddiadau blynyddol ar gyfer eu hapeliadau. Mae'r Loteri Staff yn parhau i dyfu, ynghyd â rhai mentrau newydd fel RHS Caerdydd, Pride Cymru, Her y Tri Chopa a noson Divas.

Er i'r Elusen Iechyd wario £2.127m yn cefnogi nifer o brosiectau sy'n gwella profiad cleifion a gwasanaethau lles staff ar draws y Bwrdd Iechyd, nid ydym wedi gallu cefnogi'r holl brosiectau a wnaeth gais am gymorth ariannol gan fod angen i'r Elusen Iechyd weithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Wrth symud ymlaen, mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi bod yn gweithio tuag at ddrafftio Strategaeth Elusen Iechyd ar gyfer 2019-25 a chalendr o ddigwyddiadau ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Oherwydd y pandemig Covid-19 presennol, bydd hyn hefyd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau 'rhithwir'.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n holl roddwyr, noddwyr ac ymddiriedolwyr sydd wedi ein cefnogi drwy gydol y flwyddyn. Diolch o waelod calon i aelodau tîm yr Elusen Iechyd a'r tîm Cyfathrebu am eu hymrwymiad a'u gwaith caled i gyflawni'r prosiectau hyn, a gwneud yr Elusen Iechyd yn llwyddiant.

Gobeithiwn y bydd y straeon yn yr adroddiad yr un mor bwerus, diddorol ac ysbrydoledig i chi ag yr oedden nhw i ni.

Charles Janczewski
Cadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Iechyd

Akmal Hanuk
Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Cipolwg ar ein blwyddyn

Eleni, rydych wedi helpu i godi cyfanswm o £1.36 miliwn o bunnoedd i helpu i wneud pethau'n well.



Rhoddion

£734,000



Gwaddol

£127,000



Buddsoddiadau

£199,000

Gweithgareddau masnachu eraill



£245,000



£63,000



£37,906

Ein Hapeliadau



£12,569



£29,347



£114,731



£101,883



1,692
o ddilynwyr
newydd

2



£6,984



729
o ddilynwyr
newydd

Sut rydyn ni wedi gwario eich arian

Eleni, rydym wedi gwario £2.127 miliwn yn gwneud pethau'n well i'n cleifion a'n staff.



75%

Addysg a lles
cleifion



22%

Addysg a
lles staff



3%

Ymchwil a
chostau

Uchafbwyntiau Codi Arian



Ebrill - Mehefin 2019



Enillodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro fedal Gilt Arian a hefyd y wobwr Gwely Blodau Gorau yn RHS Caerdydd.

Roedd yn ymdrech tîm go iawn i ddod â'r Gwely Blodau'n fyw gyda chyfraniadau gan Men's Shed Cardiff, y tîm gweithgareddau yn Ysbyty Hafan y Coed, Cyfoeth Naturiol Cymru, tîm yr Elusen Iechyd a gwirfoddolwyr cymunedol.

Aeth cannoedd o bobl i Forglawdd Bae Caerdydd ar gyfer yr ail Her Gwthio Gwely i gefnogi Meddygon, Nyrsys, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Staff Byrddau Iechyd. Daeth cefnogwyr o Admiral Law hefyd, gyda phawb yn codi arian ar gyfer eu wardiau a'u hadrannau lleol.

Cymerodd 14 o dimau ran ym Mrwydr y Gwelyau, gan obeithio cael eu coroni'r tîm cyflymaf, gan rasio eu gwely thema o un ochr i'r morglawdd i'r llall.



Ymwelodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, â'n Perllan yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau i blannu coeden a fydd yn blodeuo ac yn tyfu ar gyfer y dyfodol.

Aeth Forget-Me-Not Productions â chleifion ar Ward y Dwyrain 18 yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ar daith i'r 1940au, i'w helpu i hel atgofion am 'slawer dydd. Mae Dwyrain 18 yn ward dementia a phan fydd gweithgareddau fel hyn yn digwydd, mae staff wir yn sylwi ar ymateb cadarnhaol gan y cleifion.



Cymerodd tri aelod o staff, Oliver Williams, Lisa Lewis a Jayne Catherall ran ym Marathon Llundain Virgin yn 2019, gan godi arian ac ymwybyddiaeth o'r Elusen Iechyd.

Gorffennaf - Medi 2019



Ariannodd yr Elusen Iechyd Wasanaeth Parcio a Theithio cynyddol am ddim o Bentwyn i Ysbyty Athrofaol Cymru. Yn hytrach na bysiau bob 20 munud, cawsant eu cynyddu i bob 10 munud.

Mae'r Elusen Iechyd hefyd wedi ariannu'r Gwasanaeth Parcio a Theithio o Faes Parcio Toys "R" Us i Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn helpu i wella profiad cleifion a gwneud parcio'n haws i gleifion a staff.

Gwrfoddolodd disgyblion Blwyddyn 11 o Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer prosiect i wella un o erddi'r cwrt yn Ysbyty'r Barri.

Cafodd yr ardd ei thrawsnewid mewn cyfnod byr o amser, gyda choed wedi'u tocio, bylbiau wedi'u plannu, bomiau gwenyn wedi'u gwasgaru a'r chwynnu wedi'i gwblhau. Roedd y canlyniad yn edrych yn wych.



Cymerodd pymtheg o bobl o bob rhan o Dde Cymru ran yn Her Tri Chopa gyntaf erioed yr Elusen Iechyd. Concrodd y tîm Gader Idris, yr Wyddfa a Phen y Fan mewn 24 awr, i gyd i godi arian i wneud gwahaniaeth i gleifion a staff.

Cyrhaeddodd rai gwesteion newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru - mae cannoedd o wenyn wedi symud i mewn i gychod gwenyn yn ddiweddar ar ben Adeilad Cochrane.

Bydd y cychod gwenyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd a Phrifysgol Caerdydd, gyda chymorth gan Brosiect Buzzin' New Link Wales, i weithio gyda'i gilydd i helpu i wneud mêl gwych fel rhan o'r Prosiect WellBeeing.



Mae pod newydd wedi glanio yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r pod, a fydd yn gweithredu fel canolfan yr Elusen Iechyd, wedi'i leoli yn y cyntedd i helpu'r rhai sydd am gael rhagor o wybodaeth am elusen swyddogol y Bwrdd Iechyd ac i staff ddysgu sut i wneud cais am arian elusennol.

Hydref - Rhagfyr 2019



Cynhaliodd yr Elusen Iechyd ei hail Ddawns Tei Glas yn Mercure Holland House Caerdydd gan godi arian ar gyfer yr Apêl Prop sy'n cefnogi cleifion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd yn Ysbyty Rookwood.

Daeth bron i 300 o bobl i'r digwyddiad. Gwisgodd cyn-gleifion, staff, teuluoedd a chefnogwyr deis glas a ffrogiau nos glas i ddangos eu cefnogaeth i'r Apêl Prop.

Cynhaliodd yr Elusen Iechyd ei Chinio Gala Tei Pinc blynyddol ym Marriott Caerdydd gan godi arian ar gyfer Apêl Canolfan y Fron, sy'n cefnogi cleifion canser y fron gyda'u gwellhad.

Daeth bron i 200 o bobl i'r digwyddiad, gan gynnwys cyn-gleifion, staff, teuluoedd a chefnogwyr yn gwisgo teis pinc a ffrogiau nos pinc i godi arian a dangos eu cefnogaeth i Apêl Canolfan y Fron.



Bu Canolfan y Fron yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn gweithio gyda Splash Central i ddarparu sesiynau nofio ac ymarfer corff am ddim i'r rhai sydd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer canser y fron.

Fel rhan o'r strategaeth barhaus i leihau gwastraff ar draws y Bwrdd Iechyd, ariannodd yr Elusen Iechyd finiau ailgylchu ar gyfer pecynnau creision, a gyflwynwyd gan y Tîm Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r cynllun, ar y cyd â Terracycle, yn golygu y bydd incwm a dderbynnir o ailgylchu pecynnau creision yn cael ei roi yn ôl i'r Elusen Iechyd.



Roedd yr Elusen Iechyd yn falch iawn o gyhoeddi partneriaeth newydd gyda Nathaniel Cars i gynnig manteision unigryw i weithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Ionawr - Mawrth 2020

Lansiodd yr Elusen lechyd ei gwefan newydd, a gafodd ei diweddarau gyda dyluniad ffres, modern. Mae'r safle ar ei newydd wedd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Elusen lechyd yn ei wneud. Mae'r wefan bellach yn cefnogi taliadau ar-lein ar gyfer digwyddiadau, prynu a thocynnau, gan wneud trafodion ariannol yn llawer haws i roddwyr a chyfranogwyr digwyddiadau.



Cynhaliwyd Loteri Fawr y Staff gydag un enillydd lwcus, Michelle Cawley, yn ennill gwobr anhygoel o £10,000. Roedd Michelle, sy'n gweithio yn yr Uned Lawfeddygol Arhosiad Byr yn Ysbyty Athrofaol Cymru, wrth ei bodd o ennill y wobwr. Meddai: "Dwi methu credu'r peth. Dydw i ddim fel arfer yn cael newyddion da, diolch yn fawr i'r Elusen lechyd."

Gofalu yn ystod Covid-19 #RhannurCariad



Ymatebodd yr Elusen lechyd yn gyflym i'r argyfwng digynsail hwn drwy sefydlu ymgyrch Justgiving o'r enw #RhannurCariad. Sefydlodd archfarchnadoedd bwyntiau rhoi, lle gallai'r cyhoedd roi bwyd, diodydd, byrbrydau a hanfodion. Cysylltodd yr Elusen lechyd ag unigolion, busnesau, sefydliadau a chyflenwyr i sicrhau bod staff rheng flaen yn derbyn bwyd, byrbrydau, diodydd a hanfodion i helpu gyda lles staff.

Sefydlodd yr Elusen lechyd Hafan Staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochoau, lle gallai staff gymryd saib o'u wardiau a'u hadrannau i orffwys ac adfer yn ystod y pandemig Covid-19.

Derbyniodd yr Elusen lechyd nifer o roddion mawr ym mis Ebrill 2020 i'r ymgyrch #RhannurCariad. Daeth y rhoddion hyn gan Gareth ac Emma Bale, Aaron Ramsey a Syr Stanley Thomas, i gyd i helpu staff ar y rheng flaen yn ystod Covid-19.



Creodd yr artist Nathan Wyburn y ddelwedd eiconig hon y gwnaeth yr Elusen lechyd ei hyrwyddo a'i harddangos fel diolch i staff ar draws pob safle ysbyty.

Anfonwyd lluniau enfys hardd i'r staff gan blant ysgol lleol i helpu i hybu morâl. Helpodd yr Elusen lechyd i arddangos y delweddau hyn ar wardiau ym mhob rhan o'r Bwrdd lechyd.



Cyfrifon Blynyddol 2019-20


Crynodeb o Gyflawniadau Ariannol ac

Incwm Perfformiad

Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn 2019/20 oedd £1.368m sy'n ostyngiad o £0.632m o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cynhyrchwyd incwm yr Elusen o roddion, gwaddol, incwm buddsoddi a gweithgareddau masnachu eraill.

Dadansoddiad Incwm



Rhoddion (53% - £0.734m)

Mae'r Elusen yn ddiolchgar iawn o fod wedi derbyn rhoddion o £0.734m i'n helpu i gyflawni ein nodau a'n hamcanion.

Gwaddol (9% - £0.127m)

Derbyniodd yr Elusen £0.127m mewn gwaddol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r unigolion hynny a gofiodd ein wardiau a'n hadrannau yn eu hewyllys.

Gweithgareddau Masnachu Eraill (23% - £0.308m)

Cynhyrchodd yr Elusen £0.245m drwy Loteri Staff Caerdydd a'r Fro a £0.063m arall drwy weithgareddau masnachu eraill.


Incwm Buddsoddi (15% - £0.199m)

Y Difidendau a'r Llog o Bortffolio Buddsoddi'r Elusen oedd £0.199m

Crynodeb o Wariant

Yn 2019/20 cafwyd gwariant o £2.127m ar weithgareddau elusennol. Roedd hyn yn cynnwys addysg a lles cleifion, addysg a lles staff, ymchwil a gwariant arall.

Dadansoddiad o Wariant



Buddsoddiadau a Pherfformiad

Yn ystod 2019/20 gwelodd yr Elusen golledion gwerth marchnad o £0.615m.

Sefyllfa ariannol gyffredinol

Mae gwerth cyffredinol yr Elusen ar 31 Mawrth 2020 wedi gostwng o falans agoriadol o £10.679m i £8.937m. Cynrychiolir y symudiad hwn o £1.742m gan wariant net o £1.120m, colledion buddsoddi o ££0.615m ac ailbrisio asedau o ££0.007m.

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Yr Elusen

Crëwyd yr Elusen Iechyd ar 3 Mehefin 1996 gan Ddatganiad o Ymddiriedolaeth ac, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cafodd ei diwygio gan Weithred Atodol ar 12 Gorffennaf 2001 a 2 Rhagfyr 2010. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen Iechyd. Mae'r BIP yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r arian i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio cronfeydd elusennol i ddarparu'r budd mwyaf posibl i gleifion BIP Caerdydd a'r Fro a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ategu yn hytrach na dirprwyo cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG.

Cofrestru

Trosglwyddwyd y Cronfeydd Elusennol a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhinwedd Offeryn Statudol 2009 Rhif 1558 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009. Newidiodd y weithred atodol, dyddiedig 2 Rhagfyr 2010, enw'r Elusen Iechyd yn ffurfiol i Elusen Diben Cyffredinol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Rhif Elusen Gofrestredig 1056544. Mae gan yr Elusen Iechyd nifer o elusennau cyfansoddol ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Catherine Jenkins
- Elusen Gyffredinol Addysg a Hyfforddiant
- Elusen Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ymchwil a Datblygu
- Elusen Gyffredinol Lles Staff a Chleifion
- Cronfa Hyfforddiant, Ymchwil ac Addysg
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae'r cofrestriad hefyd yn cwmpasu Cronfa Fuddsoddi Gyffredin Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Cronfeydd Gwariadwy). Mae hyn yn cyfuno cronfeydd yr Elusen Iechyd yn un gronfa at ddibenion buddsoddi.

Cyfansoddiad

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal cronfeydd elusennol fel yr unig ymddiriedolwr corfforaethol ac mae aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol ar y cyd am reoli'r cronfeydd elusennol hynny. Roedd aelodaeth y bwrdd fel a ganlyn ar yr adeg y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

Aelodau Annibynnol

Maria Battle	Cadeirydd tan 5 ^{ed} Awst 2019
Charles Janczewski	Cadeirydd Dros Dro o 6 ^{ed} Awst
2019	
Akmal Hanuk	Aelod Annibynnol – Cymuned Leol
Dawn Ward	Aelod Annibynnol - Undeb Llafur
Eileen Brandreth	Aelod Annibynnol – Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg
Yr Athro Gary Baxter	Aelod Annibynnol - Prifysgol
John Union	Aelod Annibynnol - Cyllid
John Antioniazzi	Aelod Annibynnol – Ystadau tan 31 ^{ain} Hydref 2019
Sara Moseley	Aelod Annibynnol - Trydydd Sector
Michael Imperato	Aelod Annibynnol – Is-gadeirydd Interim Cyfreithiol o 9 ^{fed} Hydref 2019
Susan Elsmore	Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol
Rhian Thomas	Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau (O 1 ^{af} Chwefror 2020)

Swyddog Aelodau

Leonard Richards	Prif Weithredwr
Graham Shortland	Cyfarwyddwr Meddygol tan 18 ^{fed} Ebrill 2019
Dr Sharon Hopkins	Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwybodeg a Dirprwy Brif Weithredwr tan 23 ^{ain} Mehefin 2019.
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Robert Chadwick	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
Stuart Walker	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol o 17 ^{eg} Gorffennaf 2019
Martin Driscoll	Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad. Dirprwy Brif Weithredwr o 1 ^{af} Tachwedd 2019.
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio
Dr Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Steve Curry	Prif Swyddog Gweithredol
Nicola Foreman	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Jonathan Gray	Cyfarwyddwr Trawsnewid o 2 ^{il} Rhagfyr 2019
Peter Durning	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro 19 ^{eg} Ebrill – 16 ^{eg} Gorffennaf 2019

Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb i:

- Reoli a monitro'r defnydd o adnoddau'r cronfeydd er budd y cyhoedd, gan roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau
- Cytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer safonau a monitro
- Adolygu strategaeth i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r Elusen Iechyd
- Pennu strategaeth fuddsoddi'r Elusen Iechyd
- Cytuno ar gynlluniau gwariant
- Pennu amcanion a strategaeth codi arian

Rhestrir aelodau'r pwyllgor a wasanaethodd yn ystod 2019/20 isod:

Akmal Hanuk
Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol

Fiona Jenkins
Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd

John Union
Aelod Annibynnol Cyllid

Maria Battle
Cadeirydd – Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Martin Driscoll
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad

Nicola Foreman
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Charles Janczewski
Cadeirydd Dros Dro - Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Ruth Walker
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

Cronfeydd Elusennol

Mae ein Helusen yn cynnwys mwy na 300 o gronfeydd gwahanol, pob un â phwrpas penodol boed hynny ar gyfer ymchwil, hyfforddiant neu ardal benodol o ysbyty neu adran. Dyrennir yr holl arian a dderbynnir i'r cronfeydd hyn. Defnyddir y gronfa pwrpas cyffredinol lle mae'r rhoddwr yn dymuno i'r Elusen ddyrannu arian i gefnogi'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd â'r angen mwyaf am gymorth ar draws y BIP cyfan. Rheolir pob cronfa gan ddeiliad cronfa arbenigol – yn gyffredinol arbenigwr yn y maes penodol sy'n berthnasol i'r gronfa. Mae'r Elusen yn gyfrifol am ddarparu arweiniad, gwybodaeth ariannol a chynghor i ddeiliaid cronfeydd.

Rydym yn rheoli tri math o arian:

Cronfeydd anghyfyngedig – cronfeydd cyffredinol yw'r rhain a dyma'r cronfeydd y gellir eu

gwario yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr i wella'r gwasanaethau ar draws y BIP

Cronfeydd cyfyngedig – dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodwyd gan yr Elusen pan gawsant eu rhoi neu eu codi y gellir gwario'r rhain.

Cronfeydd gwaddol – lle mae cronfeydd cyfalaf ar gael i'n Helusen ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Ymddiriedolwyr eu buddsoddi neu eu cadw. Lle mae gwaddol parhaol yn bodoli, nid oes gan Ymddiriedolwyr bŵer awtomatig i wario'r cyfalaf. Os yw'r gronfa'n waddol y gellir ei gwario, mae gan ymddiriedolwyr y pŵer i drosi cyfalaf yn incwm.

Mae'r gwaith o weinyddu arian o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan:

Yr Adran Cronfa Elusennol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
2il Lawr, Tŷ Coetir,
Caerdydd, CF14 4HH

Rheoli Risg Buddsoddi

Mae'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn sgrinio'r buddsoddiadau cyn eu prynu i gydymffurfio â'r polisi moesegol. Yn ogystal, caiff daliadau presennol eu sgrinio'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Pe bai'r gronfa'n prynu swydd mewn daliad nad oedd yn cydymffurfio ac a nodwyd fel rhan o'r broses ôl-brynu, byddai'r buddsoddiad yn cael ei werthu wedyn.

Nid oes gan y portffolio fuddsoddiadau mewn cwmnïau y mae eu prif weithgareddau gweithgynhyrchu yn gysylltiedig â thybaco, alcohol, arfogaeth a phornograffi / adloniant i oedolion. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd buddsoddi cyffredin (a chynhyrchion tebyg) sy'n ymgorffori'r rhain yn eu portffolio.

Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Strategaeth yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yw cymhwyso cronfeydd elusennol o fewn amser rhesymol o'u derbyn, yn ddelfrydol o fewn blwyddyn i ddwy flynedd, oni bai bod gofynion penodol ynghlwm wrth incwm. Yn hanesyddol, mae lefel y gwariant wedi'i brasamcanu'n gyffredinol i lefel yr incwm, gyda chronfeydd wrth gefn mwy na'r angen yn cael eu cadw i reoli unrhyw amrywiadau.

Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn presennol yn nodi y dylai'r Elusen gadw'r cronfeydd wrth gefn canlynol:

- Cronfa fuddsoddi asedau sefydlog ar wahân, yn seiliedig ar 10% o'r buddsoddiadau asedau gwerth sefydlog (tua £550,000)
- Isafswm o £500,000 i sicrhau bod digon o arian ar gyfer ymrwymïadau parhaus

O safbwynt prosesau, nid oes cronfa unigol sy'n dal yr holl gronfeydd wrth gefn, ond ystyrir bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn fwy na digonol ar gyfer anghenion cyfredol. Wrth symud ymlaen bydd yr Elusen yn adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn i adlewyrchu unrhyw newidiadau i sefyllfa ariannol yr Elusen.

Risg Contract Buddsoddi

Ar hyn o bryd mae gan Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro contract gyda Cazenove Capital Management a ddyfarnwyd ym mis Medi 2015 am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall. Cytunodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i ymarfer yr opsiwn o ymestyn y contract am ddwy flynedd arall hyd at fis Medi 2019. Mae hyn wedi'i ymestyn ymhellach eto hyd nes y dyfernir y contract newydd, y disgwylir iddo ddigwydd yn Ionawr 2021.

Mae'r Elusen yn ceisio sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar gronfeydd tra'n mabwysiadu polisi ceidwadol ar risg a strwythur hyblyg mewn perthynas â Dosbarthu Dosbarth Asedau. Mae'r portffolio wedi'i strwythuro i alluogi amrywiaeth o fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu cyfradd enillion gystadleuol. Mae'r cyfarwyddwr buddsoddi wedi dirprwyo awdurdod i brynu a gwerthu buddsoddiadau wrth i gyfleoedd yn y farchnad godi. Mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn mynychu'n ffurfiol ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddwywaith y flwyddyn.

Risg Rheolaeth Ariannol

Mae gweithdrefn rheolaeth ariannol, canllaw gwariant, fframwaith llywodraethu a strategaeth wedi'u datblygu i sicrhau bod digon o reolaethau rheoli ar waith i:

- Sicrhau bod gwariant yn unol â gwrthrychau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Sicrhau bod y meini prawf ar gyfer gwario arian elusennol yn cael eu bodloni'n llawn
- Sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu'n cael eu cadw
- Sicrhau bod penderfyniadau datganoledig o fewn paramedrau penodol.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol i werthuso digonolrwydd gweithdrefnau a rheolaethau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch:

- Cyflawni amcanion rheoli ar gyfer y systemau
- Defnydd economaidd ac effeithlon o adnoddau
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau
- Diogelu asedau

Cyflwynir yr adroddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae'r rhain yn fesur allweddol o ran lliniaru risg rheoli.

Ymgynghorwyr

Bancwyr	Government Banking Service Southern House 7fed Llawr Wellesley Grove Croydon CF9 1WW
Rheolwyr Buddsoddi	Cazenove Capital Management 12 Moorgate Llundain EC2R 6DA
Archwilwyr Allanol	Archwilydd Cyffredinol Cymru 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ
Archwilwyr Mewnol	Adran Archwilio Mewnol NWSSP Llawr 1af, Tŷ Coetir Caerdydd CF14 4HH
Ymgynghorwyr TAW	Ernst & Young LLP The Paragon Counterslip Bryste BS1 6BX

CYFRIFON ELUSEN IECHYD CAERDYDD A'R FRO AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020

Rhagair

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y bo'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

Cefndir Statudol

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen o dan baragraff 16c o Atodlen 2 i Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

Penodwyd yr Ymddiriedolwyr o dan adran 11 o Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

Prif Ddiben y Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedaeth

Prif ddiben yr elusen yw cymhwyso incwm at unrhyw ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro.

Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

		Cronfeydd anghyfy ngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cronfeydd gwaddol	Cyfanswm 2019- 20 £000
	Nodyn	£000	£000	£000	£000
Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:					
Rhoddion a Gwaddol	4	650	211		861
Gweithgareddau masnachu eraill	5	11	297		308
Buddsoddiadau	6	<u>139</u>	<u>59</u>	<u>1</u>	<u>199</u>
Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn		800	567	1	1,368
Gwariant ar:					
Codi arian	7	206	155		361
Gweithgareddau elusenol	8	<u>1,799</u>	<u>307</u>	<u>21</u>	<u>2,127</u>
Cyfanswm gwariant		2,005	462	21	2,488
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	14	<u>-612</u>	<u>0</u>	<u>-3</u>	<u>-615</u>
Incwm / (gwariant) net		<u>-1,817</u>	<u>105</u>	<u>-23</u>	<u>-1,735</u>
Trosglwyddo rhwng cronfeydd		10	-9	-1	0
Symudiad net mewn cronfeydd		<u>-1,807</u>	<u>96</u>	<u>-24</u>	<u>-1,735</u>
Enillion / (colledion) ar ailbrizio asedau sefydlog	13			<u>-7</u>	<u>-7</u>
Cysoni Cronfeydd		<u>-1,807</u>	<u>96</u>	<u>-31</u>	<u>-1,742</u>
Cyfanswm y Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2019 (Wedi'i ailddatgan)	20	<u>6,365</u>	<u>1,771</u>	<u>2,543</u>	<u>10,679</u>
Cyfanswm y Cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2020		<u>4,558</u>	<u>1,867</u>	<u>2,512</u>	<u>8,937</u>

Mae'r nodiadau ar dudalen 22 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2018/19

Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

		Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Gwaddol	Cyfanswm 2018-19
	Nodyn	£000	£000	£000	£000
Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:					
Rhoddion a Gwaddol	4	947	525		1,472
Gweithgareddau masnachu eraill	5	3	318		321
Buddsoddiadau	6	145	61	1	207
Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn		1,095	904	1	2,000
Gwariant ar:					
Codi arian	7	211	157		368
Gweithgareddau elusennol	8	1,061	433	22	1,516
Cyfanswm gwariant		1,272	590	22	1,884
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	14	335	0	2	337
Incwm / (gwariant) net		158	314	-19	453
Trosglwyddo rhwng cronfeydd		10	-6	-4	0
Symudiad net mewn cronfeydd		168	308	-23	453
Enillion / (colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog	13			43	43
Cysoni Cronfeydd		168	308	20	496
Cyfanswm y Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2018 (Wedi'i ailddatgan)	20	6,197	1,463	2,523	10,183
Cyfanswm y Cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2019		6,365	1,771	2,543	10,679

Mantolen ar 31 Mawrth 2020

		Cronfeydd anghyfy ngedig	Cronfeydd incwm cyfyngedig	Cronfeydd gwaddol	Cyfans wm 31 Mawrth 2020	Cyfans wm 31 Mawrth 2019
Nody n		£000	£000	£000	£000	£000
Asedau sefydlog:						
Asedau Diriaethol	13			2,476	2,476	2,503
Buddsoddiadau	14	3,975	1,488	36	5,499	6,114
Cyfanswm asedau sefydlog		3,975	1,488	2,512	7,975	8,617
Asedau cyfredol:						
Dyledwyr	15	115	42		157	498
Arian parod a chywerthoedd arian parod	16	849	366		1,215	1,848
Cyfanswm asedau cyfredol		964	408	0	1,372	2,346
Rhwymedigaethau:						
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	381	29		410	284
Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net		583	379	0	962	2,062
Cyfanswm asedau / (rhwymedigaethau) net		4,558	1,867	2,512	8,937	10,679
Cronfeydd yr elusen:						
Cronfeydd Gwaddol	20			36	36	40
Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	20			2,476	2,476	2,503
Cronfeydd incwm cyfyngedig (Wedi'u hailddatgan) *	20		1,867		1,867	1,771
Cronfeydd incwm anghyfyngedig (Wedi'u hailddatgan) *	20	4,558			4,558	6,365
Cyfanswm yr arian		4,558	1,867	2,512	8,937	10,679

* Gweler nodyn 2 ailddatganiad y

flwyddyn flaenorol Cyfarwyddwr

Cyllid Dros Dro

Mr Christopher Lewis

Dyddiad.....26 Ionawr 2021.....

C.H. Lewis

Mae'r nodiadau ar dudalen 22 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad Llifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

		Cyfan swm Cronf eydd 2019-20 £000	Cyfan swm Cronf eydd 2018-19 £000
	Nod yn		
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:			
Arian net a ddarparwyd drwy (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu	18	-832	-270
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:			
Difidend, llog a rhenti o fuddsoddiadau	6	199	207
Symud mewn Arian Buddsoddi	14	-73	104
Enillion o werthu buddsoddiadau		727	1,570
Prynu buddsoddiadau	14	-654	-974
Arian net a ddarparwyd drwy (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi		199	907
Newid mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn y cyfnod adrodd		-633	637
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	16	1,848	1,211
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	16	1,215	1,848

Mae'r nodiadau ar dudalen 22 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Polisiâu cyfrifyddu

a) Sail Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio asedau sefydlog diriaethol a buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys mewn prisiad.

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y mae'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi i roi darlun "gwir a theg" ac wedi gwyro oddi wrth Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol i ddarparu "darlun cywir a theg". Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn y trefniadau Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na Chyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2005 ond sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r Elusen i barhau fel busnes gweithredol. Yn y dyfodol, y risgiau allweddol i'r Elusen yw gostyngiad mewn incwm o roddion neu ostyngiad mewn incwm buddsoddi ond mae gan yr Ymddiriedolwyr drefniadau ar waith i liniaru'r risgiau hynny (gweler yr adrannau Rheoli Risg Buddsoddi a Pholisi Chronfeydd Wrth Gefn yn yr adroddiad blynyddol am ragor o wybodaeth).

Mae'r Elusen yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS

b) Os oes cyfyngiad cyfreithiol ar y diben ar gyfer gosod cronfa, caiff y gronfa ei dosbarthu naill ai fel:

- Cronfa gyfyngedig neu
- Gronfa waddol

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rhai lle mae'r rhoddwr wedi darparu ar gyfer gwario'r rhodd i hyrwyddo diben elusennol penodedig.

Mae cronfeydd gwaddol yn codi pan fydd y rhoddwr wedi darparu'n benodol y caiff y rhodd ei fuddsoddi ac mai dim ond incwm y gronfa y gellir ei wario. Caiff y cronfeydd hyn eu his-ddadansoddi rhwng y rhai lle mae gan yr ymddiriedolwyr y disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwariadwy) a'r rhai lle nad oes disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwaddol parhaol).

Mae'r cronfeydd hynny nad ydynt yn gronfeydd gwaddol na chronfeydd incwm cyfyngedig yn gronfeydd incwm anghyfyngedig sy'n cael eu his-ddadansoddi rhwng cronfeydd dynodedig (wedi'u clustnodi) lle mae'r ymddiriedolwyr wedi neilltuo symiau i'w defnyddio at ddibenion penodol neu

sy'n adlewyrchu dymuniadau anghyfrwymol rhoddwyr a chronfeydd anghyfyngedig sydd yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys y gronfa gyffredinol sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn yr elusen.

c) Adnoddau sy'n dod i mewn

Cydnabyddir yr holl adnoddau sy'n dod i mewn unwaith y bydd gan yr elusen hawl i'r adnoddau, pan mae'n debygol (yn fwy tebygol na pheidio) y bydd yr adnoddau'n cael eu derbyn a phan ellir mesur gwerth ariannol adnoddau sy'n dod i mewn gyda digon o ddibynadwyedd.

Os oes telerau neu amodau ynghlwm wrth adnoddau sy'n dod i mewn, yn enwedig grantiau, yna rhaid bodloni'r telerau neu amodau hyn cyn i'r incwm gael ei gydnabod gan na fydd amod yr hawl yn cael ei fodloni tan y pwynt hwnnw. Lle nad yw telerau neu amodau wedi'u bodloni neu os oes ansicrwydd ynghylch a ellir eu bodloni, ni chydabyddir yr incwm perthnasol yn ystod y flwyddyn - caiff ei ohirio a'i ddangos ar y fantolen.

d) Adnoddau incwm o waddol

Cyfrifir gwaddol fel adnoddau sy'n dod i mewn naill ai wrth eu derbyn neu lle mae'n debygol y derbynnir y gwaddol.

Mae'n debygol y cânt eu derbyn pan:

- Gafwyd cadarnhad gan gynrychiolwyr yr ystâd(au) bod profiant wedi'i roi
- Mae'r ysgutorion wedi sefydlu bod digon o asedau yn yr ystâd i dalu'r waddol ac
- Mae'r holl amodau sy'n gysylltiedig â'r waddol wedi'u cyflawni neu o fewn rheolaeth yr Elusen.

Os oes ansicrwydd ynghylch swm y gwaddol ac na ellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy, dangosir y waddol fel ased amodol hyd nes y bodlonir yr holl amodau ar gyfer cynhyrchu incwm.

e) Adnoddau incwm o gronfeydd gwaddol

Mae'r adnoddau sy'n dod i mewn o'r gronfa waddol a fuddsoddwyd yn gwbl gyfyngedig.

f) Adnoddau a wariwyd a TAW anadferadwy

Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail gronol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â phob categori o gost a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cydnabyddir gwariant pan fydd y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol
- Mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd angen trosglwyddo buddiannau (taliad arian parod fel arfer) mewn setliad
- Gellir mesur neu amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Codir TAW anadferadwy yn erbyn y categori perthnasol o adnoddau a wariwyd.

Mae rhwymedigaeth adeiladol yn codi pan:

- Rydym wedi cyfleu ein bwriad i ddyfarnu grant i dderbynnydd sydd wedyn â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- Rydym wedi gwneud cyhoeddiad cyhoeddus am ymrwymiad sy'n ddigon penodol i'r derbynnydd fod â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- Mae patrwm ymarfer sefydledig sy'n dangos i'r derbynnydd y byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiad.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr reolaeth dros swm ac amseriad taliadau grant ac, o ganlyniad, lle mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi cymeradwyaeth a bod unrhyw un o'r meini prawf uchod wedi'u bodloni, cydnabyddir y rhwymedigaeth. Fel arfer, ni ddyfernir grantiau gydag amodau ynghlwm. Fodd bynnag, pan gânt eu dyfarnu, rhaid bodloni'r amodau hynny cyn cydnabod y rhwymedigaeth.

Lle nad oes bwriad wedi'i gyfleu, ni chydabyddir unrhyw wariant ond gwneir dynodiad priodol yn y gronfa briodol. Os yw grant wedi'i gynnig ond bod ansicrwydd a fydd yn cael ei dderbyn neu a fydd amodau'n cael eu bodloni, ni chydabyddir unrhyw atebolrwydd ond datgelir rhwymedigaeth amodol.

g) Dyrannu costau cymorth

Costau cymorth yw'r costau hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag un gweithgaredd. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff, costau gweinyddu, costau archwilio mewnol ac allanol. Dosrennir costau cymorth ar sail balans cyfartalog y gronfa.

h) Costau codi arian

Costau cynhyrchu arian yw'r costau hynny y gellir eu priodoli i gynhyrchu incwm i'r elusen, ac eithrio'r costau hynny yr eir iddynt wrth ymgymryd â gweithgareddau elusennol neu'r costau a ysgwyddir wrth ymgymryd â gweithgareddau masnachu i hyrwyddo nodau'r elusen. Mae costau cynhyrchu arian yn cynrychioli costau codi arian ynghyd â ffioedd rheoli buddsoddi. Mae costau codi arian yn cynnwys treuliau ar gyfer gweithgareddau codi arian a ffi a delir i barti cysylltiedig, y Bwrdd Iechyd, o dan gytundeb codi arian. Defnyddir y ffi i dalu cyflogau a chostau cyffredinol swyddfa codi arian y Bwrdd Iechyd.

i) Gweithgareddau Elusennol

Costau gweithgareddau elusennol yw'r holl gostau a ysgwyddir wrth geisio cyflawni nodau elusennol yr elusen. Dosrennir y costau hyn, lle na ellir eu priodoli'n llwyr, rhwng y categorïau o wariant elusennol yn ogystal â'r costau uniongyrchol. Mae cyfanswm costau pob categori o wariant elusennol yn cynnwys dosraniad costau cymorth fel y dangosir yn nodyn 8.

j) Dyledwyr

Mae dyledwyr yn symiau sy'n ddyledus i'r elusen. Cânt eu mesur ar sail eu swm adenilladwy.

k) Arian parod a chywerthoedd arian parod

Cynhelir arian parod yn y banc ac mewn llaw i dalu costau rhedeg yr elusen o ddydd i ddydd, wrth iddynt ddod yn ddyledus. Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn yw cywerthoedd arian parod, fel arfer mewn cyfrifon cynilo llog sydd â rhybudd 90 diwrnod.

l) Credydwyr

Mae credydwyr yn symiau sy'n ddyledus gan yr elusen. Cânt eu mesur ar y swm y mae'r elusen yn disgwyl gorfod ei dalu i setlo'r ddyled. Dangosir symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn fel credydwyr hirdymor.

m) Enillion a cholledion a wireddwyd

Eir â'r holl enillion a cholledion i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Cyfrifir enillion a cholledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiannau a'r gwerth cario agoriadol (dyddiad prynu os yn ddiweddarach).

Cyfrifir enillion a cholledion nas gwireddwyd fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwerth cario agoriadol (neu ddyddiad prynu os yn ddiweddarach).

n) Asedau Sefydlog

Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr enillion a'r colledion net sy'n deillio o ailbrisio a gwaredu drwy gydol y flwyddyn. Caiff asedau sefydlog diriaethol eu prisio ar y gost gyfredol fel a ganlyn:

- i) Ailbrisiwyd y tir a'r adeiladau mewn perthynas ag Ysbyty Rookwood fel yr oedd ar 1^{af} Ebrill 2017, ac roedd yr ailbrisio'n adlewyrchu'r cyfyngiad ar ddefnydd ysbyty yn unig. Lle y bo'n briodol rhwng prisiadau, cymhwysir mynegai priodol, a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru, i ailbrisio'r ased.
- ii) Caiff asedau yn ystod gwaith adeiladu eu prisio ar gost gyfredol.
- iii) Y trothwy cyfalafu yw £5,000
- iv) Cofnodir symudiadau mewn ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn ar y fantolen

Cynhelir prisiadau proffesiynol gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth bob pum mlynedd, sydd (fel cangen fasnachol Asiantaeth y Swyddfa Brisio) yn rhan o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cynhelir y prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio'r Sefydliad Syrfewyr Siartredig (RICS) i'r graddau y mae'r telerau hyn yn gyson â gofynion cytûn Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Cydnabyddir symudiadau mewn ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio.

Dibrisiant

- i) Codir dibrisiant ar bob prif ddosbarth o ased diriaethol fel a ganlyn: nid yw tir ac asedau a ddefnyddir wrth adeiladu yn cael eu dibrisio. Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu swm ailbrisedig dros weddill oes asesedig yr ased fel y cynghorir gan y priswyr proffesiynol;
- ii) Nodir amhariadau, lle yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn, ar wahân yn nodyn 13 ac fe'u codir ar gronfeydd yr elusen lle y'u hachosir gan amrywiadau mewn prisiau ac i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn pan gafodd yr amhariad ei gydnabod.
- iii) Mae'r amcangyfrif o weddill oes yr asedau wedi'i rannu rhwng peirianeg (15 mlynedd) a strwythur (45 mlynedd).

Caiff Asedau a Roddwyd eu cyfalafu wrth eu prisio ar sail cost adnewyddu lawn wrth eu derbyn a chânt eu hailbrasio a'u dibrisio fel y disgrifir uchod.

2. Ailddatgan y Flwyddyn Flaenorol

Er mwyn nodi'n gywir ddosbarthiad cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig yr Elusen ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019, ailddatganwyd y datgeliadau canlynol ar gyfer y ddau ddyddiad:

<u>Datganiad o Weithgareddau Ariannol 2019-20</u>	<u>£ k</u>
cynyddodd arian anghyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	220
gostyngodd cronfeydd cyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	220
<u>Datganiad o Weithgareddau Ariannol 2018-19</u>	
cynyddodd arian anghyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	200
gostyngodd cronfeydd cyfyngedig a ddygwyd ymlaen gan	200
cynyddodd gwariant ar weithgareddau elusennol, anghyfyngedig gan	78
gostyngodd gwariant ar weithgareddau elusennol, cyfyngedig gan	78
cynyddodd enillion/colled net ar fuddsoddiadau anghyfyngedig gan	98
gostyngodd enillion/colled net ar fuddsoddiadau cyfyngedig gan	98
<u>Mantolen</u>	
cynyddodd cronfeydd anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2019 gan	220
gostyngodd cronfeydd cyfyngedig ar 31 Mawrth 2019 gan	220

3. Trafodion partïon cysylltiedig

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen.

Yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hyn a nodir isod, nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiedig perthnasol eraill sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, aelodau'r bwrdd nac uwch staff rheoli allweddol.

Mae Aelodau'r Bwrdd (ac uwch staff eraill) yn gwneud penderfyniadau ar faterion Elusennol a Thrysorlys ond yn ymdrechu i gadw buddiannau pob un ar wahân ac nid ydynt yn elwa'n bersonol o benderfyniadau o'r fath. Mae datganiadau o fuddiant personol wedi'u gwneud ac maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol gysylltiadau agos â Phrifysgol Caerdydd sy'n cynnwys rhannu staff yn ogystal â rhannu llety ar Safle Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae'r tabl isod yn ymwneud â thrafodion ariannol partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Parti Cysylltiedig	Incwm parti cysylltiedig	Gwariant parti cysylltiedig	Symiau sy'n ddyledus i barti cysylltiedig	Symiau sy'n ddyledus gan barti cysylltiedig
	2019/20 £000	2019/20 £000	2019/20 £000	2019/20 £000
Cyngor Caerdydd		1		5
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro		955	310	27
Prifysgol Caerdydd		44		1

Mae'r tabl isod yn cynnwys enwau aelodau unigol y bwrdd a'r berthynas â'r parti cysylltiedig.

Aelod o'r Bwrdd	Perthynas â'r Parti Cysylltiedig
Susan Elsmore	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles Cyngor Dinas Caerdydd
Eileen Brandeth	Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Thechnoleg Prifysgol Caerdydd
Len Richards	Aelod Annibynnol o Brifysgol Caerdydd
Yr Athro Gary Baxter	Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg Gwyddorau Bywyd Biofeddygol

Mae'r tabl isod yn ymwneud â thrafodion ariannol partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Newidiwyd fformat y nodyn ar gyfer 2019/20 yn gyson â chyfrifon refeniw'r BILI. Disodlwyd y tablau ar gyfer derbynebaw a thaliadau gan incwm a gwariant ar gyfer 2019/20.

Parti Cysylltiedig	Taliadau i barti cysylltiedig	Derbyniadau gan barti cysylltiedig	Symiau sy'n ddyledus i barti cysylltiedig	Symiau sy'n ddyledus gan barti cysylltiedig
	2018/19 £000	2018/19 £000	2018/19 £000	2018/19 £000
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	1,073		98	21
Prifysgol Caerdydd	43		19	1
Prifysgol Abertawe	2			
Llywodraeth Cymru	4			
Blake Morgan Solicitors		1		
Cyngor Caerdydd	17		1	

4. Incwm o roddion a gwaddol

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfan swm 2019-20	Cyfan swm 2018-19
	£000	£000	£000	£000	£000
Rhoddion	549	185		734	732
Gwaddol	101	26		127	740
	650	211	0	861	1,472

5. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfan swm 2019-20	Cyfan swm 2018-19
	£000	£000	£000	£000	£000
Loteri staff		245		245	242
Masnachu arall	11	52		63	79
	11	297	0	308	321

6. Incwm buddsoddi gros

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfanswm 2019-20	Cyfanswm 2018-19
	£000	£000	£000	£000	£000
Ecwiti asedau sefydlog a buddsoddiadau tebyg	131	56	1	188	198
Buddsoddiadau Tymor Byr	8	3		11	9
Blaendaliadau ac arian parod ar adnau	139	59	1	199	207

7. Dadansoddiad o wariant ar godi arian

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Incwm Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfan swm 2019-20	Cyfan swm 2018-19
	£000	£000	£000	£000	£000
Swyddfa codi arian	189	81		270	266
Digwyddiadau codi arian		67		67	78
Ffioedd rheoli buddsoddiadau	17	7		24	24
	206	155	0	361	368

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

8. Dadansoddiad o weithgarwch elusennol

	Gweithga reddau cymerwy d £000	Cymort h costau £000	Cyfans wm 2019-20 £000	Cyfans wm 2018-19 £000
Addysg a lles cleifion	1,484	97	1,581	1,073
Addysg a lles staff	457	13	470	367
Ymchwil	28	2	30	45
Arall	24	2	26	11
Dibrisiant	20		20	20
	2,013	114	2,127	1,516

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

9 Grantiau

Nid yw'r elusen yn rhoi grantiau i unigolion na'r Bwrdd Iechyd

Mae'r elusen yn gweithredu Panel Ceisiadau Cronfeydd Elusennol sy'n cymeradwyo grantiau i'r Trydydd Sector yn flynyddol.

Yn ystod 2019/20 cymeradwywyd £0.033m gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Yn ystod 2018/19 cymeradwyodd yr Elusen swm o £0.025m i'r Trydydd Sector.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y taliadau grant.

Sefydliad	2019/20 £000	2018/19 £000
GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG	33	
CYMUNED ADFER CYMRU		3
CYNGOR CYMRU DROS BOBL FYDDAR		2
CRUSE BEREAVEMENT CARE		4
BYDDIN YR EGLWYS		7
ADCG		4
THE GOOD GYM LTD		5
Cyfanswm	33	25

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

10. Dyrannu costau cymorth

	Codi arian £000	Gweithgar eddu elusenol £000	Cyfans wm 2019-20 £000	Cyfans wm 2018-19 £000
Llywodraethu				
Swyddfa Archwilio Cymru	0	10	10	10
Archwilio Mewnol	0	10	10	10
Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau	24	0	24	24
Cyfanswm llywodraethu	24	20	44	44
Cyllid a gweinyddu		94	94	94
	24	114	138	138

Mae'r taliad cyllid a gweinyddu i barti cysylltiedig (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) ac mae hyn yn ymwneud â chostau staff.

	Cronfeydd anghyfy ngedig £000	Cronfeyd d incwm cyfyngedi g £000	Cronfeydd gwaddol £000	Cyfans wm Cronfe ydd 2019- 20 £000
Codi arian	17	7	0	24
Gweithgareddau elusenol	80	34	0	114
	97	41	0	138

11. Taliadau cydnabyddiaeth, buddion a threuliau'r Ymddiriedolwyr

Nid yw'r elusen yn gwneud unrhyw daliadau am dâl nac yn ad-dalu treuliau i ymddiriedolwyr yr elusen am eu gwaith fel ymddiriedolwr.

12. Taliadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd

Mae taliad cydnabyddiaeth yr archwilydd o £10,000 (2018/19:£10,000) yn ymwneud ag archwilio'r adroddiad blynyddol statudol a chyfrifon yn unig.

13. Asedau sefydlog diriaethol

	Tir ac Adeiladau Rhydd- ddaliadol	Tir ac Adeiladau Rhydd- ddaliadol
<u>Cost neu brisiad</u>		
Balans Agoriadol	2,543	2,500
Ychwanegiadau	0	0
Ailbrisiadau	-7	43
Gwarediadau	0	0
Amhariadau	0	0
Balans Clo	2,536	2,543
<u>Dibrisiant cronedig</u>		
Balans Agoriadol	40	20
Gwarediadau	0	0
Ailbrisiadau	0	0
Amhariadau	0	0
Tâl am y flwyddyn	20	20
Balans Clo	60	40
GAN Agoriadol	2,503	2,480
GAN Clo	2,476	2,503

Ysbyty Rookwood yw'r unig Ased Sefydlog Diriaethol a gydnabyddir yn "Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol"

14. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Symudiad mewn buddsoddiadau asedau sefydlog

	Buddsoddiadau sydd wedi'u rhestru ar y Gyfnewidfa Stoc	Arian Parod sy'n cael ei ddal mewn Portffolio Buddsoddi	Cyfanswm 2019-20	Cyfanswm 2018-19
	£000	£000	£000	£000
Gwerth y farchnad wedi'i ddwyn ymlaen	5,855	259	6,114	6,477
Ychwanegu: ychwanegiadau at fuddsoddiadau ar gost	654		654	974
Llai gwarediadau ar werth cario	(725)		(725)	(1,454)
Ychwanegu unrhyw enillion / (colled) ar ailbrisio	(617)		(617)	221
Symudiad arian parod a ddelir fel rhan o'r portffolio buddsoddi		73	73	(104)
Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2020	5,167	332	5,499	6,114

Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol byd-eang gan greu ansicrwydd ynghylch gwerthoedd asedau anhylifol. Ar 31 Mawrth 2020, mae ein rheolwyr eiddo o'r farn y gellir rhoi llai o bwys ar brisiadau, gan arwain at adrodd ar brisiadau ar sail 'ansicrwydd prisio materol.' Mae'r ansicrwydd prisio materol hwn sy'n effeithio ar gyfrifon y flwyddyn gyfredol yn ymwneud â thri Buddsoddiad Eiddo gyda chyfanswm gwerth o £495,227.

Mae'r golled ar ailbrisio yn ymwneud â'r golled nas gwirededwyd, ond cyfrifir y golled gyffredinol o £0.615m, fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, drwy addasu hefyd ar gyfer Enillion o £0.002m. (2018/19 £0.116m). Ar 31^{ain} Mawrth 2020 ystyriwyd bod y buddsoddiad canlynol yn berthnasol: UBS ETF MSCI USA ETF Cymdeithasol-Gyfrifol.

Ymdrinnir â buddsoddiad yr Elusen gan ymgynghorwyr buddsoddi a benodir gan yr Elusen, gan ddefnyddio proses briodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer contractau prynu. Mae'r Elusen yn gweithredu polisi buddsoddi sy'n darparu ar gyfer lefel uchel o arallgyfeirio mewn daliadau o fewn dosbarthiadau asedau buddsoddi. Gwneir cyfran fawr o fuddsoddiadau gyda chwmnïau a restrir ar gyfnewidfa stoc y DU neu sydd wedi'u corffori yn y DU. Ariennir y rhan fwyaf o'r gwariant o roddion a gwaddol, ac felly nid yw'r Elusen yn agored i risg hylifedd sylweddol. Mae'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn mynychu'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddwywaith y flwyddyn i drafod pob agwedd ar berfformiad buddsoddi a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y perfformiad

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

15. Dadansoddiad o ddyledwyr presennol

Dyledwyr o dan 1 flwyddyn	Cyfanswm 31 Mawrth 2020 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2019 (Wedi'i ailddatgan) £000
Dyledwyr eraill	5	15
Rhagdaliadau	57	53
Incwm Cronedig	95	430
	157	498
Cyfanswm dyledwyr	157	498

Mae'r ail-ddatganiad yn adlewyrchu'r symudiad o £430k o linell y dyledwyr eraill i incwm cronedig.

16. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

	31 Mawrth 2020 £000	31 Mawrth 2019 £000
Arian parod yn y banc	1,215	1,848
	1,215	1,848

17. Dadansoddiad o rwymedigaethau

Credydwy o dan 1 flwyddyn	Cyfanswm 31 Mawrth 2020 £000	Cyfanswm 31 Mawrth 2019 £000
Credydwy eraill	383	245
Croniadau	27	39
	410	284
Cyfanswm credydwy	410	284

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

18. Cysoni incwm / gwariant net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	Cyfanswm 2019-20 £000	Cyfanswm 2018-19 £000
Incwm / (gwariant) net (fesul Datganiad o Weithgareddau	(1,735)	453
Ariannol) gydag Addasiad ar gyfer:	20	20
Taliadau dibrisiant		
(Enillion) / colledion ar fuddsoddiadau	615	(337)
Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau	(199)	(207)
(Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr	341	(260)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr	126	61
Arian net a ddarparwyd drwy (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu	(832)	(270)

19. Rôl gwirfoddolwyr

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn parhau i fod yn hynod ddiolechgar i'r holl wirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgareddau codi arian gyda chymaint o egni, angerdd a sgil. Ni allai'r Elusen gyflawni ei holl amcanion heb ymrwymiad parhaus y gwirfoddolwyr i wneud cymaint o wahaniaeth i gleifion a staff.

Nod yr Elusen yw gweithio'n agosach gyda gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu rolau Hyrwyddwr Elusen mwy penodol, gan gynnwys cefnogi ein rhedwyr yn Hanner Marathon Caerdydd a goruchwyllo'r tuniau casglu elusennol. Yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, oherwydd absenoldeb unrhyw sail mesur ddibynadwy, ni chydabyddir cyfraniad y gwirfoddolwyr hyn yn y cyfrifon.

20. Dadansoddiad o'r Cronfeydd

a. Dadansoddiad o gronfeydd gwaddol

	Balans 1 Ebrill 2019 (Wedi'i ailddatgan) £000	Incwm £000	Gwariant £000	Trosglwy ddiadau £000	Enillio n a cholle dion £000	Balans 31 Mawrth 2020 £000
Catherine Jenkins	40	1	(1)	(1)	(3)	36
	40	1	(1)	(1)	(3)	36

b. Dadansoddiad o symudiadau cronfeydd cyfyngedig perthnasol

	Balans 1 Ebrill 2019 (Wedi'i ailddatgan) £000	Incwm £000	Gwariant £000	Trosglwy ddiadau £000	Enillio n a cholle dion £000	Balans 31 Mawrth 2020 £000
Cronfa Apêl Bywyd Gwell Ffibrosis Systig	382	102	(8)			476
Gwaddol Phillips - Ymchwil Asthma	207	7	(5)			209
Uned Gofal y Fron - Diben Cyffredinol	193	115	(86)			222
Gwaddol May - Ymchwil Asthma	142	4	(3)			143
Gwaddol Murphy (Uned Dydd Morfa - Diben Cyffredinol)	101	3	(14)			90
Apêl Telemetreg Plant (Diben Cyffredinol)	92	4	(2)			94
Gwaddol Chidgey	89	3	(2)			90
Gwaddol Gould (Haematoleg)	82	11	(2)			91
Gwaddol Gould (Uned Môr yr Esgyrn)	82	11	(2)			91
Apêl Trawsblannu Môr	77	7	(2)			82
Arall	324	300	(336)	(9)		279
	1,771	567	(462)	(9)	0	1,867

Gweler Nodyn 2 ailddatganiad y flwyddyn flaenorol

c. Dadansoddiad o symudiadau cronfa ddynodedig anghyfyngedig a materol

	Balans 1 Ebrill 2019 (Wedi'i ailddatgan) £000	Incwm £000	Gwariant £000	Trosglwy ddiadau £000	Enillio n a cholle dion £000	Balans 31 Mawrth 2020 £000
Cronfeydd Anghyfyngedig						
Anghyfyngedig Dirprwyedig	1,500		-561		-612	327
Anghyfyngedig Heb ei Ddirprwyo	<u>444</u>		<u>-315</u>			<u>129</u>
	1,944		-876	0	-612	456
Cronfeydd Dynodedig						
Gwaddol Hughes (Cardioleg)	318	10	-22			306
Nyrsys Ysbyty Athrofaol Cymru	249	45	-15			279
Gwaddol Biggs Ymchwil Gardiaidd	150	4	-42			112
Ymchwil Geriatrig (Ysbyty Athrofaol Cymru)	134	4	-3			135
Lewcemia a Lymffoma	127	20	-3			144
Cleifion Cyffredinol Ysbyty Athrofaol Cymru	122	4	-10			116
Uned Dydd Haematoleg	106	16	-12			110
Ward Canser yr Ardegau Caerdydd a'r Fro	50	32	-1			81
Arall	<u>3,165</u>	<u>665</u>	<u>-1,021</u>	<u>10</u>		<u>2,819</u>
	4,421	800	-1,129	10		4,102
Cyfanswm	6,365	800	-2,005	10	-612	4,558

Gweler Nodyn 2 ailddatganiad y flwyddyn flaenorol

d. Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn

Rookwood

Balans 1 Ebrill	Incwm	Gwariant (Dibrisiant)	Trosglwy ddiadau	Enilli on a cholledi on £000	Balans 31 Mawrth 2020
2019					
£000	£000	£000	£000	£000	£000
2,503		-20		-7	2,476
<u>2,503</u>	<u>0</u>	<u>-20</u>	<u>0</u>	<u>-7</u>	<u>2,476</u>

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

Nodiadau Ychwanegol

21. Ymrwymadau

2019/20

£000

Mae gan y cronfeydd yr ymrwymadau canlynol:

Prosiectau elusennol

Cyfanswm

930

Enw'r ymrwymiad

£000

Gardd Horatio (CFC16/143) (1-3 blynedd)	500
Lles Cyflogeion (CTM 19/06/008) (1-3 blynedd)	125
Gwobrau Cydnabod Staff (CFC 18/052) (4 blynedd)	20
Gwaredu Rookwood (CTM 19/06/009) (1-2 flynedd)	155
Atebion Trafnidiaeth BIP (CT/19/03/007) (1-3 blynedd)	130
	930

Ariennir ymrwymadau o Gronfeydd Anghyfyngedig yr Elusen

22. Asedau a Roddwyd

Yn ystod y flwyddyn prynodd yr Elusen asedau gwerth £0.061m. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Elusen ac fe'u dosberthir fel Asedau a Roddwyd yn Natganiadau Ariannol y BILL.

23. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen


Mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol adlewyrchu'r amodau sy'n gymwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly ni wneir unrhyw addasiadau ar gyfer unrhyw newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau rhwng 31 Mawrth 2020 a'r dyddiad y cymeradwyir y datganiadau ariannol. Mae gwerth teg y buddsoddiadau a ddelir gan yr Elusen ar 31 Mawrth 2020 wedi newid yn y cyfamser fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2020 £000	6 Ionawr 2021 £000
Buddsoddiad	5,499	6,492

As Financial Trustee of the funds held on trust I am responsible for:

- the maintenance of financial records appropriate to the activities of the fund(s).
- the establishment and monitoring of a system of internal control.
- the establishment of arrangements for the prevention of fraud and corruption.
- the preparation of annual financial statements which give a true and fair view of the funds held on trust and the results of their operations.

.....26 January 2021



.....On behalf of Financial Trustee

Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2019/20

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU YMDDIRIEDOLWYR

MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn ac o'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, dylai'r ymddiriedolwr ddilyn arfer gorau a:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- barnu a gwerthuso p'un a ydynt yn rhesymol a chall;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a datganiadau o arfer a argymhellir, yn amodol ar unrhyw wyriadau a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau gweithred yr ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r ymddiriedolwr yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Ar orchymyn yr ymddiriedolwr

Llofnod:



26 Ionawr

Ymddiriedolwr..... Dyddiedig 2021

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwr Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2020 ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Y sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â deddfwriaeth gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy ngwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

Pwyslais y Mater

Tynnaf sylw at Nodyn 14 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith y pandemig COVID-19 ar brisio buddsoddiadau'r gronfa eiddo ar 31 Mawrth 2020. O ganlyniad i'r pandemig, datganodd prisiwr rheolwr y gronfa 'ansicrwydd prisio materol' mewn tri o'i adroddiadau prisio proffesiynol, gyda chyfanswm prisiad o £495,227. Roedd y tri adroddiad prisio wedi'u dyddio 31 Mawrth 2020. Mae'r Elusen wedi cynnwys buddsoddiadau'r gronfa eiddo hyn yn y datganiadau ariannol ar y dyddiad hwnnw. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn gofyn i mi adrodd wrthynt lle:

- nad yw defnydd ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi dagan yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai roi amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf wedi'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu cymeradwyo i'w cyhoeddi.

Adroddiad ar ofynion eraill

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac felly adroddiad fy archwiliwr. Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Mewn cysylltiad â'm archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennyf

wrth wneud yr archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i mi gyflwyno adroddiad i chi mewn perthynas â hwy os, yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol ag adroddiad yr ymddiriedolwyr;
- nid oes digon o gofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r adroddiadau; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 38, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Elusennau 2011, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwr yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai y credir ei bod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'm penodwyd yn archwilydd o dan adran 150 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rwy'n adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gangymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Ionawr 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ